Crynodeb 60 eiliad

# Darparwyr Addysg Uwch: Cyfraith Defnyddwyr

CMA
Competition & Markets Authority

## Sut mae cyfraith defnyddwyr yn berthnasol i ddarparwyr Addysg Uwch?

Mae cyfraith defnyddwyr yn gyffredinol yn berthnasol i'ch perthynas gyda myfyrwyr israddedig. Y materion allweddol i'w hystyried yw eich darpariaeth gwybodaeth, amodau a thelerau ac ymdriniaeth o gwynion.

Os nad ydych chi'n bodloni eich rhwymedigaethau, efallai y byddwch yn torri cyfraith defnyddwyr a gallech wynebu camau gorfodi. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd gan fyfyrwyr hefyd yr hawl i gymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn ac/neu geisio unioniad.

## Sut mae cyfraith defnyddwyr yn berthnasol i ddarpariaeth gwybodaeth?

Rhaid i chi roi'r wybodaeth i fyfyrwyr maent ei hangen i wneud penderfyniad gwybodus cyn ymgeisio. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys:

- cynnwys a strwythur y cwrs
- cyfanswm costau'r cwrs yn cynnwys ffioedd dysgu ac unrhyw gostau atodol sy'n gysylltiedig â'r cwrs, fel teithiau maes, offer labordy neu ffioedd mainc/stiwdio
- eich amodau a thelerau, yn cynnwys unrhyw reolau a rheoliadau mae myfyrwyr yn rhwym iddynt

Cyn, neu fan bellaf wrth, gynnig lle i fyfyriwr, rhaid i chi roi gwybod am unrhyw newidiadau ers iddo ymgeisio a rhoi 'gwybodaeth cyn cytundeb' sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth am y cwrs a chostau, gwybodaeth ar ymdrin â chwynion ac unrhyw hawliau i ganslo.

## Sut mae cyfraith defnyddwyr yn berthnasol i amodau a thelerau?

- Dylai eich amodau a thelerau, yn cynnwys unrhyw reolau a rheoliadau, fod yn glir a thryloyw.
- Dylent sicrhau cydbwysedd teg rhwng eich hawliau a'ch rhwymedigaethau chi a rhai eich myfyrwyr, er enghraifft, gallai amodau sy'n rhoi caniatâd eang i chi i newid agweddau pwysig o'r cwrs neu ffioedd fod yn annheg.
- Rhaid i chi sicrhau eich bod yn dod ag amodau syfrdanol neu bwysig at sylw'r myfyriwr yn benodol.
- Ni fyddwch yn gallu gorfodi amodau a thelerau sy'n annheg.

## Sut mae cyfraith defnyddwyr yn berthnasol i brosesau ac arferion ymdrin â chwynion?

- Dylech sicrhau fod eich prosesau cwynion yn deg a thryloyw.
- Rhaid i chi hysbysu myfyrwyr am eich prosesau, yn cynnwys unrhyw hawl i uwchgyfeirio'n fewnol ac i gynllunio cwynion allanol megis yr OIA neu SPSO.
- Dylech sicrhau fod eich staff yn gwybod a dilyn y prosesau.

## Gallai methiant i gydymffurfio â chyfraith defnyddwyr arwain at gamau gorfodi



## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae cydymffurfiad â chyfraith defnyddwyr nid yn unig yn bwysig o ran rhoi'r amddiffyniad gofynnol i fyfyrwyr yn ôl y gyfraith, ond mae hefyd yn helpu cynnal hyder myfyrwyr a safonau ac enw da sector Addysg Uwch y Deyrnas Unedig.

Bydd cydymffurfio â chyfraith defnyddwyr yn eich helpu i gystadlu am a chadw myfyrwyr.

## Eisiau cael gwybod mwy?

Mae'r CMA wedi cyhoeddi cyngor manwl i'ch helpu i gydymffurfio gyda chyfraith defnyddwyr.

http://bit.ly/HEadvice

Dylech ddarllen y cyngor yn llawn a gwneud unrhyw newidiadau gofynnol i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith.

**Nid yw'r deunyddiau hyn yn cyfateb i gyngor cyfreithiol ac ni ddylid dibynnu arnynt felly. Efallai y bydd rhwymedigaethau atodol penodol i'r sector hefyd yn berthnasol.**